



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Ymadael â'r UE) 2019

**DYDDIAD** 10 Rhagfyr 2018

**GAN** Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Ymadael â'r UE) 2019

### Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Mae'n diwygio deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei dargadw ac sy'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth drosi sydd wedi'i chynnwys mewn Cyfarwyddebau dŵr allweddol yr UE. Y brif gyfarwyddeb yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC.

Mae hefyd yn diwygio'r penderfyniadau gweithredu a ganlyn gan yr UE;

**Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2011/321/EU** sydd, yn unol â Chyfarwyddeb 2006/7/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn sefydlu symbol ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am gategoriâu dyfroedd ymdrochi ac am unrhyw waharddiad ar ymdrochi neu gyngor i beidio ag ymdrochi.

**Penderfyniad y Comisiwn (EU) 2017/1583** sydd, yn unol â Chyfarwyddeb 2006/7/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn pennu mai EN ISO 17994:2014 yw'r safon ar gyfer cyfwerthedd o ran dulliau microbiolegol.

**Penderfyniad y Comisiwn (EU) 2018/229** sydd, yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn sefydlu gwerthoedd ar gyfer categorïau'r system fonitro yn sgil yr ymarfer rhynggraddnodi.

**Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2018/840/EU** sy'n sefydlu rhestr o sylweddau y dylid cadw golwg amdanynt a'u monitro ledled yr UE ym maes polisi dŵr yn unol â Chyfarwyddeb 2008/105/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor;

Mae'r darnau a ganlyn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn cael eu dirymu ac mae unrhyw gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno yn Atodiad 20 i Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd i'w hepgor;

**Penderfyniad Rhif 2455/2001/EC** Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r rhestr o sylweddau â blaenoriaeth ym maes polisi dwr;

**Penderfyniad y Comisiwn 2005/646/EC** ar sefydlu cofrestr o safleoedd sy'n ffurfio'r rhwydwaith rhynggraddnodi yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor;

**Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/431/EU** sy'n ymwneud â'r fformatau ar gyfer adrodd ar y rhaglenni cenedlaethol ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/271/EEC.

Mae'r OS hefyd yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn:

#### Deddfwriaeth sylfaenol

Deddf Dŵr 1989

Deddf y Diwydiant Dŵr 1991

Deddf Adnoddau Dŵr 1991

Deddf Dŵr 2014

#### Is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989

Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994

Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999

Rheoliadau Dŵr Yfed (Ymgymeriadau) (Cymru a Lloegr) 2000

Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Ardal Basn Afon Northumbria) 2003

Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Ardal Basn Afon Solway Tweed) 2004

Rheolau'r Diwydiant Dŵr (Gweinyddu Arbennig) 2009

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Lloegr) 2010

Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Lloegr) 2011

Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2015

Rheoliadau Adyswiriant Llifogydd (Cyllido a Gweinyddu'r Cynllun) 2015

Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016

Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) 2016

Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017

Rheoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Esemptiadau) 2017

Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017

## **Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, yn y drefn honno, mewn perthynas â llifogydd a dŵr; mae cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â dŵr yn ddarostyngedig i'r materion penodol a gedwir yn ôl yn Adran C15 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r OS hwn yn cynnwys diwygiadau i Offerynnau Statudol cyfansawdd ond oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sydd ynghlwm wrth ymadael â'r UE, cytunwyd i wneud y diwygiadau perthnasol mewn OS gan y DU.

### **Diben y diwygiadau**

Diben yr OS hwn (sy'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol) yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill a fyddai'n codi pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Diben cyfraith yr UE yn y maes hwn yw diogelu amgylchedd y dŵr rhag llygredd o wahanol ffynonellau, e.e. o amaethyddiaeth ac o ffynonellau trefol; mae'n ymwneud hefyd â diogelu iechyd pobl drwy atal dŵr yfed a dyfroedd ymdrochi rhag cael eu halogi.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.